nhwyso'r polisi hwn (mewn cyw

act

O reidrwydd yn golygu y caiff offer ei ddarparu gan y brifysgol i'w ddefnyddio gartref.

Gan fod y polisi hwn wedi ei ddatblygu yn sgil COVID-19, newid dros dro i amodau gwaith arferol yw hwn a bydd y brifysgol yn asesu'r sefyllfa'n barhaus dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

---

Ni fyddai cyflawni cyfrifoldebau gofalu wrth weithio o gartref yn cael ei ystyried yn bosib fel arfer. Ond rydym yn cydnabod y sefyllfa eithriadol sy'n wynebu'r brifysgol.  Os oes rhaid i unigolion ddarparu gofal, dylid trafod y trefniadau gyda'r rheolwr perthnasol gan gynnwys yr effaith ar y swydd

prif ymchwilydd neu'r arweinydd academaidd er mwyn sicrhau y caiff mesurau asesu risg a mesurau rheolaeth eu rhoi ar waith.

Disgwylir i aelodau staff weithredu'r un egwyddorion ag a weithredir ar y campws o ran gosod eu man gwaith a chymryd saib yn rheolaidd. Gall unigolion hefyd wneud hunanasesiad offer sgrin arddangos eu hunain i nodi unrhyw broblemau. Gellir gweld yr adnoddau hyfforddi ac asesu trwy'r cyswllt hwn i dudalennau gwe y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch

Mae canllaw ar weithio o gartref hefyd wedi ei lunio, ac mae ar gael ar dudalennau gwe Covid-19 y brifysgol.

Ni fydd y brifysgol fel rheol yn darparu dodrefn swyddfa (e.e. desgiau a chadeiriau) i alluogi gweithio o gartref dros dro. Os nad oes man ar gael sy'n bodloni'r canllawiau offer sgrin

sgrin

Mae'n bwysig sefydlu amserlen waith wrth weithio o gartref. Mae llawer o bobl sy'n gweithio o gartref yn gweld eu bod yn gweithio oriau hir gan nad oes arwydd clir bod diwedd y diwrnod wedi cyrraedd. Mae'n bwysig bod unigolion yn gosod terfynau amser iddynt eu hunain fel na chânt drafferth dod â'u diwrnod gwaith i ben.

Fel rheol, dylai aelodau staff fod ar gael i gysylltu â hwy trwy e-bost a Teams yn ystod eu diwrnod gwaith fel arfer, a lle bo hynny'n bosib, gyda'r amlder a'r dulliau cyfathrebu y cytunwyd arnynt gyda'r rheolwr dan sylw.  Os nad yw hyn yn bosib, e.e. oherwydd cyfrifoldebau gofalu, dylai'r aelod staff gytuno ar ei batrwm gweithio gyda'i reolwr llinell.

fod rhywun ar eu haelwyd wedi datblygu symptomau) dylent roi gwybod i'w rheolwr llinell. Heb gysylltiad â Covid-19, pe bai unrhyw aelod staff yn mynd yn sâl, dylid rhoi gwybod i'r rheolwr am hyn yn y modd arferol, fel nodir yn y polisi hwn. Felly ni ddylai aelodau staff sy'n sâl ddefnyddio'r polisi hwn ar weithio o gartref, mewn achosion o'r fath y Polisi a Threfn Absenoldeb Salwch fydd yn berthnasol.
Polisi Diogelwch Gwybodaeth
Polisi Diogelu Data

Ystyriaethau ariannol

Polisi'r brifysgol yw peidio â rhoi unrhyw daliadau ychwanegol i aelodau staff sy'n gweithio o gartref. Bydd hyn yn parhau yn ystod yr argyfwng iechyd byd-eang hwn pan fydd nifer y staff sy'n gweithio o gartref yn uwch na'r arfer. Rydym yn sylweddoli y gall eich costau cyfleustodau fod yn uwch tra byddwch yn gweithio o gartref yn ystod wythnosau cyntaf y trefniadau hyn, ond bydd llawer ohonoch hefyd yn arbed arian ar gostau teithio i'r gwaith.

Yn ystod y cyfnod y mae'n rhaid i aelodau staff weithio o gartref oherwydd bod campws y brifysgol ar gau, efallai y bydd unigolion yn gallu hawlio gostyngiad treth gan Gyllid a Thollau EM os ydynt wedi gorfod talu costau ychwanegol sy'n deillio o weithio o gartref. Os caiff ei